**Yr Ail Gynulliad**
**Cyfarfod Llawn (90)**

**Dydd Mercher, 6 Hydref 2004**

**AGENDA**

**Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 4**
**Dadl ar Gomisiwn Richard**
*NDM2113 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Ar ôl ystyried Adroddiad Comisiwn Richard, yn galw ar Brif Weinidog Cymru i annog Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gyflwyno cynigion i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru at y dibenion canlynol:

a) sicrhau gwahaniad ffurfiol rhwng cangen weithredol a changen ddeddfwriaethol y Cynulliad;

b) diwygio'r trefniadau etholiadol presennol er mwyn cael gwared ar unrhyw anghysondebau;

c) gwella pwerau deddfwriaethol y Cynulliad.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*
*(1)+(5)*
*(2)+(7)+(8)+(9)*

*(3)+(4)+(6)*

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl Cymru a rhoi yn ei le
'Yn cyfarwyddo Prif Weinidog Cymru i alw ar Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gyflwyno cynigion ar gyfer disodli Deddf Llywodraeth Cymru gan Ddeddf arall a fydd yn rhoi holl argymhellion Comisiwn Richard ar waith o fewn yr amserlen a amlinellir yn adroddiad y Comisiwn.'

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Dileu popeth ar ôl 'Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru' ac ychwanegu:
'Yn cymeradwyo argymhellion Comisiwn Richard ac yn galw ar Lywodraeth y DU i'w rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.'

**Gwelliant 3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu pwynt (b)

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu pwynt (c)

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig
'Yn credu pan gynhelir refferendwm ar roi argymhellion Comisiwn Richard ar waith, dylai refferendwm o'r fath gael ei drefnu gan y Cynulliad gan ddefnyddio darpariaethau a.36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.'

**Gwelliant 6 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn derbyn yr angen i dderbyn caniatâd pobl Cymru drwy refferendwm, drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru neu gan Lywodraeth y DU, os cynigir newid sylweddol i'r setliad cyfansoddiadol.'

**Gwelliant 7 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn credu y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn bodloni dyheadau pobl Cymru pan fydd eglurder ynghylch pwerau a chyfrifoldebau. Yn nodi y byddai rhoi argymhellion Comisiwn Richard ar waith yn cyflawni'r amcan hwnnw. Yn credu y byddai'r man canol a gynigir gan Brif Weinidog Cymru yn gadael pwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad yn aneglur ac yn agored i newid pellach.'

**Gwelliant 8 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn nodi y byddai rhoi argymhellion Comisiwn Richard ar waith yn galluogi'r Cynulliad i ymestyn cylch gwaith Comisiynydd Plant Cymru i'r holl faterion sy'n berthnasol i Gymru'.

**Gwelliant 9 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn nodi y byddai rhoi argymhellion Comisiwn Richard ar waith yn galluogi'r Cynulliad i wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus.'

*Gellir cael gafael ar gopïau o Adroddiad Comisiwn Richard a Deddf Llywodraeth Cymru 1998 trwy'r cysylltiadau isod:*
*http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts1998/19980038.htm - Ni fydd y ddogfen ar gael We'r Siambr*
*http://www.comisiwnrichard.gov.uk/content/finalreport/report-w.pdf - Ni fydd y ddogfen ar gael We'r Siambr*

**Eitem 5**
**Dadl fer - *NDM2112 Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)*; Llawdriniaeth Nerfol Bediatrig yn Abertawe**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**